ADSS Cymru
Yn arwain Gwasanaethau Cymdeithasol yng Nghymru
Leading Social Services in Wales

# Memorandwm Cydweithio ar gyfer Gweithwyr Cymdeithasol Asiantaeth ar gyfer Plant

## Adduned Cymru Gyfan

Mae arweinwyr Gwasanaethau Plant yn addunedu i weithio mewn modd cydweithredol a thryloyw i reoli'r gadwyn gyflenwi asiantaethau, gwella ansawdd staff asiantaeth a rheoleiddio cyfraddau cyflog ym maes gwaith cymdeithasol plant.

Mae'r Adduned Cymru Gyfan yn rhan o raglen gweithlu strategol ehangach sy'n ymateb i heriau recriwtio a chadw gweithwyr cymdeithasol plant.

**Daw'r adduned hon i rym o 1 Mai 2023 ymlaen**

# Cynnwys

**Cynnwys** ..... **2**
**Adran 1 – Fframwaith cyffredinol** ..... **3**
Cyflwyniad ..... 3
Amcanion Adduned Cymru Gyfan ..... 3
Cwmpas ..... 3
    Gweithiwr cymdeithasol ..... 3
    Gweithiwr cymdeithasol uwch ..... 3
    Rheolwr tîm ..... 4
Ymrwymiad i Adduned Cymru Gyfan ..... 4
Mabwysiadu Adduned Cymru Gyfan ..... 4
Llywodraethiant ..... 4
    Codi unrhyw bryderon ..... 4
Y Tîm Adnoddau Canolog ..... 5
**Adran 2 – Egwyddorion allweddol** ..... **6**
**Gweithredu Adduned Cymru Gyfan** ..... **6**
Talu staff asiantaeth ..... 6
    Cyfraddau cyflog ar gyfer gweithwyr asiantaeth (Atodiad 1): ..... 6
Gweithwyr cymdeithasol sydd newydd gymhwyso ..... 6
Gweithwyr prosiect ..... 7
Recriwtio staff parhaol ..... 7
    Staff parhaol sy'n ymddiswyddo i ymuno â gweithlu'r asiantaeth ..... 7
Gwiriadau cyn cyflogaeth ..... 7
    Geirdaon a'r rhestr wirio penodi ..... 7
Ymgysylltu â'r gadwyn gyflenwi ..... 7
Gwiriadau perfformiad ac ansawdd ..... 8
Cyfnod rhybudd ar gyfer gweithwyr asiantaeth ..... 8
**Rhannu data i wella datblygiad y gweithlu yn y dyfodol** ..... **8**

**Adran 3 – Atodiadau:**

Atodiad 1 Cyfraddau cyflog ar gyfer Cymru gyfan
Atodiad 2 Cyfraddau uchaf dangosol ar gyfer Cymru gyfan
Atodiad 3 Templed geirda Cymru gyfan
Atodiad 4 Rhestr wirio Cymru gyfan ar gyfer penodi asiantaeth
Atodiad 5 Cynllun pontio ar gyfer awdurdod lleol Wrecsam ac awdurdod lleol Pen-y-bont ar Ogwr

# Adran 1 – Fframwaith cyffredinol

## Cyflwyniad

Mae'r adduned yn ymrwymiad gan arweinwyr Gwasanaethau Plant i weithio mewn modd cydweithredol a thryloyw i reoli'r gadwyn gyflenwi asiantaethau, gwella ansawdd a chefnogaeth staff a rheoleiddio cyfraddau cyflog ym maes gwaith cymdeithasol asiantaeth ar gyfer plant.

Mae wedi'i gynllunio i fynd i'r afael ag amrywiaeth o heriau sy'n ymwneud â chyflenwad, ansawdd a chost defnyddio gweithwyr cymdeithasol asiantaeth ar gyfer plant yng Nghymru.

Mae Adduned Cymru Gyfan yn cydnabod yr angen i ymateb ar y cyd i'r heriau sy'n gysylltiedig ag asiantaethau ac mae wedi ymrwymo i ddarparu canllawiau ac egwyddorion clir sy'n sail i reolaeth well.

## Amcanion Adduned Cymru Gyfan

Amcanion yr adduned yw gwneud y canlynol:

1. symleiddio a chysoni cyfraddau cyflog asiantaethau recriwtio ar gyfer gweithwyr gofal cymdeithasol proffesiynol ledled Cymru. Bydd yr eglurder hwn yn gwneud y canlynol:
    a. galluogi asiantaethau recriwtio i ddatblygu modelau busnes mwy cynaliadwy drwy gael mwy o sicrwydd ynghylch cyfraddau cyflog disgwyliedig
    b. lleihau trosiant gweithwyr asiantaeth a achosir gan yr ystod o gyfraddau sy'n weithredol ar hyn o bryd
2. cefnogi'r gostyngiad yn nifer y staff sy'n symud o rolau swydd parhaol i rolau asiantaeth yng Nghymru.
3. cytuno ar egwyddorion cenedlaethol ar gyfer cyflogi gweithwyr asiantaeth, gan gynnwys sut y cadarnheir geirdaon er mwyn sicrhau ansawdd gweithwyr asiantaeth.
4. sicrhau bod safonau moesegol ac arferion recriwtio yn cael eu cynnal.

## Cwmpas

Mae Adduned Cymru Gyfan yn cwmpasu Gweithlu Proffesiynol Cofrestredig Gofal Cymdeithasol Cymru ar gyfer staff asiantaeth yn y categorïau canlynol:

**Gweithiwr cymdeithasol**
Gweithiwr cymdeithasol plant cofrestredig sy'n gyfrifol am gyflawni swyddogaethau gwaith cymdeithasol cyffredinol o ddydd i ddydd.

**Gweithiwr cymdeithasol uwch**

- Uwch-ymarferydd – gweithiwr cofrestredig sy'n cefnogi gweithwyr cymdeithasol plant eraill gyda rheoli achosion ac arweiniad, ac a all fod â rhywfaint o gyfrifoldeb rheoli llinell.
- Gweithiwr cymdeithasol cofrestredig sy'n gyfrifol am ddirprwyo ar gyfer rheolwr tîm ac a all fod â chyfrifoldeb rheoli llinell penodol.
- Uwch-weithiwr cymdeithasol cofrestredig, y rhoddir cyfrifoldeb penodol iddo am gynnal llwyth achosion cymhleth.

**Rheolwr tîm**
Gweithiwr cymdeithasol cofrestredig sy'n gyfrifol am reoli tîm gwaith cymdeithasol yn llawn o ddydd i ddydd.

Nid yw cwmpas Adduned Cymru Gyfan yn cynnwys timau o weithwyr cymdeithasol a reolir.

## Ymrwymiad i Adduned Cymru Gyfan

Daw'r Adduned Cymru Gyfan i rym ar 1 Mai 2023.

Mae cyfarwyddwyr gwasanaethau cymdeithasol wedi ymrwymo i Adduned Cymru Gyfan am gyfnod cychwynnol o flwyddyn a hyd at 31 Mawrth 2024.

Os oes gan awdurdod strwythur sefydliadol nad yw’n cynnwys rôl Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol, yna gwneir yr ymrwymiad gan yr Uwch-swyddog cyfatebol sy'n gyfrifol am wasanaethau plant. At ddiben y ddogfen hon, byddwn yn parhau i ddefnyddio Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol i ddisgrifio'r holl lofnodwyr.

Bydd Adduned Cymru Gyfan yn cael ei adolygu’n ffurfiol ym mis Ionawr 2024.

## Mabwysiadu Adduned Cymru Gyfan

Bydd pob awdurdod lleol yng Nghymru yn cael ei gynnwys yn Adduned Cymru Gyfan ac maent wedi ymrwymo i gydweithio i wreiddio'r egwyddorion wrth reoli ac ymgysylltu ag asiantaethau recriwtio mewn perthynas â chyflenwi gweithwyr asiantaeth ar gyfer gwasanaethau plant.

Mae cyfarwyddwyr gwasanaethau cymdeithasol yn ymrwymo i weithredu Adduned Cymru Gyfan o fewn eu hawdurdod lleol eu hunain, gan ddal ei gilydd i gyfrif hefyd ar draws holl awdurdodau lleol Cymru os na lynir wrth yr egwyddorion neu'r capiau cyfradd y cytunwyd arnynt, a hynny yn ysbryd yr ethos o weithio ar y cyd y cytunwyd arno.

Mae'r cyfarwyddwyr gwasanaethau cymdeithasol yn cytuno i fabwysiadu'r egwyddorion y cytunwyd arnynt ar gyfer recriwtio o asiantaethau a dal ei gilydd i gyfrif drwy brosesau cytunedig o reolaeth, cyfathrebu agored a thryloywder.

## Llywodraethiant

Bydd Adduned Cymru Gyfan yn cael ei oruchwylio gan gyfarwyddwyr y gwasanaethau cymdeithasol.

Maent yn gyfrifol ac yn atebol am sicrhau bod eu penaethiaid Gwasanaethau Plant, timau adnoddau dynol a thimau comisiynu yn gweithredu Adduned Cymru Gyfan.

Bydd diweddariadau cynnydd yn cael eu rhannu â chyfarwyddwyr ADSS Cymru yn fisol ac yn cael eu trafod yn ystod cyfarfod misol cyfarwyddwyr ADSS Cymru.

**Codi unrhyw bryderon**
Yn ysbryd yr adduned hon, os oes gan unrhyw gyfarwyddwr bryder ynglŷn â’r gweithgareddau a gyflawnir wrth reoli staff asiantaeth mewn awdurdod lleol arall yng Nghymru, mewn perthynas â’r egwyddorion yn yr adduned hon, dylai ofyn i’w Bennaeth Gwasanaethau Plant gysylltu â’i swyddog cyfatebol yn anffurfiol.

Os na chaiff hyn ei ddatrys mewn ffordd gydweithredol, dylai'r cyfarwyddwr dan sylw wedyn gysylltu â'i swyddog cyfatebol i geisio datrysiad.

Pan fo mater yn parhau, rhaid i'r cyfarwyddwr hysbysu'r Tîm Adnoddau Canolog er mwyn ceisio datrys y mater drwy broses o drafod ac ymgynghori agored yn ystod fforwm misol y cyfarwyddwyr.

Os na ellir datrys y mater, gellir ei uwchgyfeirio at Lywydd ADSS Cymru a fydd yn ceisio datrysiad.

## Y Tîm Adnoddau Canolog

Er mwyn cefnogi Adduned Cymru Gyfan, bydd Tîm Adnoddau Canolog yn cael ei sefydlu.

Bydd hwn yn cael ei gynnal gan Gyngor Sir Caerfyrddin ond bydd yn adrodd i Gadeirydd Penaethiaid Gwasanaethau Plant Cymru Gyfan o fewn ADSS Cymru.

Bydd y tîm yn gyfrifol am y canlynol:

- Ymgysylltu, cefnogi a monitro gweithgareddau awdurdodau lleol ac asiantaethau.
- Nodi unrhyw risgiau a rhoi cyngor os torrwyd yr adduned.
- Ymgysylltu â phob awdurdod lleol er mwyn casglu a dadansoddi data.
- Darparu gwybodaeth reoli i gyfarwyddwyr ADSS Cymru.

# Adran 2 – Egwyddorion allweddol

## Gweithredu Adduned Cymru Gyfan

Mae’r awdurdodau lleol yn cytuno y byddant yn gwneud y canlynol:

- Ymrwymo i weithio o fewn cyfraddau cyflog ac egwyddorion Adduned Cymru Gyfan o 1 Mai 2023 ymlaen.
- Sicrhau bod cyfraddau unrhyw weithwyr asiantaeth presennol sy’n rhagori ar y cyfraddau cyflog newydd o dan Adduned Cymru Gyfan yn cydymffurfio â’r cyfraddau cyflog cyn gynted â phosibl.
- Mae cynllun pontio wedi cael ei ddatblygu ar gyfer dau awdurdod lleol penodol y mae angen rhywfaint o hyblygrwydd ychwanegol arnynt o fewn yr adduned.

## Talu staff asiantaeth

**Cyfraddau cyflog ar gyfer gweithwyr asiantaeth (Atodiad 1):**

Mae penaethiaid Gwasanaethau Plant yr awdurdodau lleol yn cytuno y byddant yn gwneud y canlynol:

a) Sicrhau bod gweithwyr cymdeithasol asiantaeth yn cael eu talu ar gyfraddau nad ydynt yn uwch na'r rheini a nodir yn Atodiad 1, a hysbysu eu darparwyr asiantaethau recriwtio, ac unrhyw swyddog comisiynu neu bersonél sy'n ymwneud â chyrchu cyflenwad staff asiantaeth ym mhob un o ardaloedd yr awdurdodau lleol, am y cyfraddau. Ni ddylid ychwanegu unrhyw lwfansau ychwanegol (fel teithio neu lety) at y cyfraddau cyflog a nodir.

b) Gweithio gyda’r tîm Adnoddau Canolog i adolygu’r cyfraddau cyflog a amlinellir yn Atodiad 1 ar lefel genedlaethol, yn flynyddol, mewn ymgynghoriad â’r holl awdurdodau lleol. Bydd hyn fel arfer yn unol â dyfarniadau cyflog yr awdurdodau lleol.

c) Gweithio ar y cyd â darparwyr asiantaethau recriwtio i sicrhau bod y teitl rôl dynodedig a’r gyfradd tâl ar gyfer staff asiantaeth yn adlewyrchu’n briodol brofiad pob gweithiwr, a’u bod yn cyd-fynd â’r cyfraddau cyflog a amlinellir yn Adduned Cymru Gyfan.

d) Cyfarwyddo asiantaethau na ddylent hysbysebu unrhyw rolau awdurdod lleol [fel y nodir yn Atodiad 1] uwchlaw’r cyfraddau cyflog a amlinellir yn Adduned Cymru Gyfan. Dylai unrhyw hysbysebion nad ydynt yn cydymffurfio sydd wedi'u postio gan asiantaethau gael eu dileu a'u hadrodd i'r Tîm Adnoddau Canolog.

## Gweithwyr cymdeithasol sydd newydd gymhwyso

Cydnabyddir bod angen i weithwyr cymdeithasol sydd newydd gymhwyso ennill profiad ymarferol wrth barhau i ddatblygu eu sgiliau proffesiynol.

Felly, mae awdurdodau lleol yn cytuno na fyddant yn cyflogi gweithwyr asiantaeth sydd â llai na thair blynedd o brofiad ar ôl cymhwyso ym maes gwaith cymdeithasol o fewn Gwasanaethau Plant (ni waeth beth fo'u llwybr i'r proffesiwn).

## Gweithwyr prosiect

Mae awdurdodau lleol yn cytuno na fyddant yn ceisio cyflogi gweithwyr cymdeithasol asiantaeth ar gyfer plant fel gweithwyr 'prosiect' neu 'barasiwt' os ydynt yn dal achosion.

Ni fydd yr awdurdodau lleol yn defnyddio'r disgrifiadau hyn neu dermau tebyg eraill i greu unrhyw rolau gweithiwr cymdeithasol plant, sy'n gofyn am weithio ar achosion, yr ystyrir eu bod y tu allan i gyfraddau cyflog a thelerau Adduned Cymru Gyfan.

## Recriwtio staff parhaol

**Staff parhaol sy'n ymddiswyddo i ymuno â gweithlu'r asiantaeth**

Mae'r awdurdodau lleol yn cytuno i wneud y canlynol:

- Peidio â defnyddio gweithwyr asiantaeth sydd wedi gadael contract parhaol ag awdurdod lleol yng Nghymru am o leiaf chwe mis ar ôl eu diwrnod olaf o gyflogaeth. Bydd y Tîm Adnoddau Canolog yn gweithio gydag awdurdodau lleol i gasglu data perthnasol er mwyn monitro'r elfen hon.
- Nid yw'r cyfyngiad hwn yn berthnasol i staff parhaol sy'n symud i rolau parhaol mewn awdurdodau lleol eraill yng Nghymru. Bydd gweithwyr cymdeithasol sy'n cael eu diswyddo o swydd barhaol yn cael eu heithrio o'r gofyniad hwn.
- Cymryd rhan mewn cyfleoedd i weithio'n fwy effeithiol gyda'r gadwyn gyflenwi asiantaethau i'w galluogi i gefnogi gweithgareddau recriwtio parhaol yn well ledled Cymru.

## Gwiriadau cyn cyflogaeth

**Geirdaon a'r rhestr wirio penodi**

Mae awdurdodau lleol yn cytuno y byddant yn gwneud y canlynol:

a) Sicrhau bod yr holl asiantaethau recriwtio yn y gadwyn gyflenwi yn mabwysiadu'r templed geirda safonol [Atodiad 3] ac yn sicrhau ei fod yn cael ei ddefnyddio fel rhan o'u proses cydymffurfedd cyn-cyflogaeth nodweddiadol.

b) Sicrhau bod dau eirda, gan ddau sefydliad gwahanol, yn cael eu darparu gan yr asiantaethau gan ddefnyddio'r templed safonol [Atodiad 3] cyn trefnu lleoliad.

c) Sicrhau bod unrhyw gais am eirda gan asiantaethau mewn perthynas â gweithiwr asiantaeth presennol / blaenorol yn cael ei gwblhau naill ai gan yr adran Adnoddau Dynol neu reolwr parhaol o fewn Gwasanaethau Plant. Mae'n bwysig nad yw hyn yn cael ei gwblhau gan weithiwr asiantaeth a all fod yn cyflawni rôl arweinydd tîm neu rôl reoli.

d) Mabwysiadu'r rhestr wirio penodi safonol at ddibenion mewnol [Atodiad 4]. Bydd hyn yn sicrhau bod nifer y gweithwyr asiantaeth a gymerir ymlaen yn unol â'r cyfraddau / categorïau swyddi ar gyfer Cymru Gyfan a nodir yn Atodiad 1.

## Ymgysylltu â'r gadwyn gyflenwi

Mae'r awdurdodau lleol yn cytuno y byddant yn gwneud y canlynol:

a) Gweithio gyda'r Tîm Adnoddau Canolog i gynnal galwadau cynadledda ar-lein gyda'r gadwyn gyflenwi asiantaethau i sicrhau bod anghenion a disgwyliadau ar gyfer rolau a leolir yn cael eu deall yn llawn. Bydd disgwyl i asiantaethau gadw a rhannu'r wybodaeth hon gyda'u staff i sicrhau bod yr hyn a ddysgwyd yn cael ei gofnodi a'i ddefnyddio mewn gweithgareddau recriwtio yn y dyfodol.

b) Gweithio gyda'r Tîm Adnoddau Canolog i sicrhau nad yw unrhyw asiantaeth y mae un awdurdod lleol yn barnu ei bod yn methu â chydymffurfio yn gyson yn cael ei defnyddio i gyrchu gweithwyr asiantaeth wedyn gan unrhyw un o'r awdurdodau lleol eraill.

## Gwiriadau perfformiad ac ansawdd

Mae sicrhau ansawdd gweithwyr asiantaeth yn gyfrifoldeb a rennir rhwng yr awdurdod lleol a'r asiantaeth recriwtio berthnasol.

Mae'r awdurdodau lleol yn cytuno y byddant yn gwneud y canlynol:

- Sicrhau bod unrhyw faterion perfformiad yn cael eu rheoli mewn modd amserol. Bydd hyn yn cynnwys hysbysu'r asiantaeth am unrhyw bryderon yn ogystal â chymryd unrhyw gamau perthnasol, sy'n cynnwys darparu cymorth ychwanegol. Pan fo angen cymorth ychwanegol sylweddol ar weithiwr, bydd yr asiantaeth yn darparu hyn gan gyfleu'r canlyniad i'r awdurdod lleol.

- Sicrhau bod y Tîm Adnoddau Canolog yn cael gwybod am unrhyw weithiwr asiantaeth y mae ei gontract wedi dod i ben oherwydd pryderon perfformiad. Bydd hyn yn rhan o'r datganiad data misol.

## Cyfnod rhybudd ar gyfer gweithwyr asiantaeth

Mae gan weithwyr cymdeithasol ddyletswydd i ddarparu parhad gofal i blant, pobl ifanc a'r teuluoedd y maent yn gweithio gyda nhw. Er mwyn lleihau effaith ymadawiadau uniongyrchol neu gyflym, mae awdurdodau lleol yn ei gwneud yn ofynnol i asiantaethau sicrhau bod gweithwyr cymdeithasol asiantaeth yn cwblhau cyfnod rhybudd o bedair wythnos o leiaf. Hynny yw, rhaid i bob gweithiwr asiantaeth gael ei gontractio i ddarparu gwasanaethau gofal cymdeithasol plant i awdurdod lleol penodol am bedair wythnos arall ar ôl iddo hysbysu'r asiantaeth y bydd yn terfynu'r trefniant. Bydd hwn yn drefniant dwyochrog rhwng gweithwyr asiantaeth, asiantaethau ac awdurdodau lleol (ac eithrio yn achos camymddwyn difrifol neu gosbau disgyblu).

# Rhannu data i wella datblygiad y gweithlu yn y dyfodol

Mae'r awdurdodau lleol yn cytuno y byddant yn cydymffurfio â Deddf Diogelu Data 2018

- Cymryd rhan mewn llunio adroddiadau, cynnal arolygon a chasglu data drwy ddarparu ymateb amserol, cywir a chynhwysfawr i geisiadau gan y Tîm Adnoddau Canolog fel bod gwybodaeth fonitro gywir a dibynadwy ar gael i bob llofnodwr yn ystod cyfarfod misol cyfarwyddwyr ADSS Cymru.

- Darparu data cywir a chyflawn i'r Tîm Adnoddau Canolog yn fisol yn ystod y flwyddyn gyntaf o weithredu.

**Yr ydym ni, sydd wedi llofnodi isod, yn cefnogi ac yn ymrwymo i delerau Adduned Cymru Gyfan [i'w lofnodi gan bob Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol].**

| **Enw'r awdurdod lleol** | **Enw'r cyfarwyddwr** | **Llofnod y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol** ***[neu'r Uwch-swyddog Cyfrifol enwebedig ar gyfer Gwasanaethau Plant]*** | **Dyddiad llofnodi** |
|---|---|---|---|
| Cyngor Sir Ynys Môn | Fôn Roberts | | |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent | Tanya Evans | | |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr | Claire Marchant | | |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili | Dave Street | | |
| Cyngor Caerdydd | Sarah McGill | | |
| Cyngor Sir Caerfyrddin | Jake Morgan | | |
| Cyngor Sir Ceredigion | Audrey Somerton-Edwards | | |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy | Jenny Williams | | |
| Cyngor Sir Ddinbych | Nicola Stubbins | | |
| Cyngor Sir y Fflint | Neil Ayling | | |
| Cyngor Gwynedd | Dylan Owen | | |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful | Lisa Curtis-Jones | | |
| Cyngor Sir Fynwy | Jane Rogers | | |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot | Andrew Jarrett | | |
| Cyngor Dinas Casnewydd | Sally Jenkins | | |
| Cyngor Sir Penfro | Darren Mutter | | |
| Cyngor Sir Powys | Nina Davies | | |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf | Neil Elliott | | |

| **Enw'r awdurdod lleol** | **Enw'r cyfarwyddwr** | **Llofnod y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol *[neu’r Uwch-swyddog Cyfrifol enwebedig ar gyfer Gwasanaethau Plant]*** | **Dyddiad llofnodi** |
|---|---|---|---|
| Cyngor Abertawe | Dave Howes | | |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen | Jason O'Brien | | |
| Cyngor Bro Morgannwg | Lance Carver | | |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam | Alwyn Jones | | |